


CRICKET WALES
CRICED CYMRU

# ADRODDIAD AR EFFAITH YR HYFFORDDWYR CYMUNEDOL 2014/2015

sportwales chwaraeoncymru

CHANCE TO SHINE SCHOOLS







# cynnwys

Amdanom Ni. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .4
Am y Rhaglen. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 5
Y rhaglen mewn rhifau . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 6
Astudiaethau Achos. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 8
Geirda gan Bartneriaid . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .14



## amdanom ni

Criced Cymru yw'r corff rheoli cenedlaethol ar gyfer criced hamdden ar lefel iau a hŷn yng Nghymru. Rydym yn un o blith 39 o Fyrddau Criced Sirol sy'n aelodau o Fwrdd Criced Cymru a Lloegr.

## ein gweledigaeth...

Criced yn ffynnu wrth galon cymunedau Cymru

## ein cenhadaeth

Arwain, ysbrydoli a dylanwadu ar dwf, ansawdd a hygyrchedd criced yng Nghymru

## ein canlyniadau

- Mwy o bobl ifanc, oedolion a theuluoedd yn ymwneud â chriced ac yn cael eu cadw yn y gamp
- Criced ar gael yn hwylus i bawb yng Nghymru
- Pobl yn cael profiad hwyliog, pleserus a chadarnhaol mewn criced
- Pobl yn cael cyfle i fod y gorau y gallan nhw fod






# am y rhaglen

TMae Rhaglen Hyfforddwyr Cymunedol Criced Cymru yn fenter genedlaethol i gynyddu'r cymryd rhan mewn criced ledled Cymru. Mae rhwydwaith o Hyfforddwyr Cymunedol yn gweithio gydag ysgolion yn y dalgylch o amgylch y clwb criced ac maent yn darparu hyfforddiant o safon uchel, cystadlaethau a chefnogaeth i athrawon. Mae plant yn cael eu hannog i ymuno â'u clwb criced lleol, sy'n cael cefnogaeth i greu amgylchedd croesawus.

# ein partneriaid cefnogi

## CHANCE TO SHINE

Elusen gofrestredig annibynnol yw Chance to Shine ac mae wedi'i chymeradwyo'n llawn gan Fwrdd Criced Cymru a Lloegr. Nod Chance to Shine yw dod â chriced yn ôl i ysgolion y wladwriaeth. Cyn ei lansio yn 2005, roedd llai na 10% o ysgolion y wladwriaeth yn chwarae criced cystadleuol. Wyth mlynedd yn ddiweddarach, mae Chance to Shine wedi cysylltu mwy na 1000 o glybiau criced â mwy na 7000 o ysgolion ac mae eu hyfforddwyr arbenigol wedi cynnig cyfleoedd criced i fwy na 2.5 miliwn o blant ysgol.

CHANCE TO SHINE SCHOOLS

## CHWARAEON CYMRU

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hybu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Y sefydliad yw prif gynghorwr Llywodraeth Cymru ar faterion chwaraeon ac mae'n gyfrifol am ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol i chwaraeon elitaidd ac ar lawr gwlad yng Nghymru. Yn sail i'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, 'Uno Cenedl Sy'n Caru'r Campau', mae dau ddyhead; 'Pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes' a 'chenedl o bencampwyr'.

sportwales chwaraeoncymru

# ein partner cyflawni




## CRICED MORGANNWG

Mae Clwb Criced Sirol Morgannwg wedi darparu manteision i glybiau ac ysgolion sy'n ymwneud â'r Rhaglen Hyfforddwyr Cymunedol. Mae'r rhain wedi cynnwys profiadau ar ddiwrnod gêm, tocynnau i gemau cartref Morgannwg mewn cystadlaethau cartref, teithiau o amgylch y stadiwm, mynediad i Amgueddfa CC4 Criced Cymru ac ymddangosiadau gan chwaraewyr.




# mudo i glybiau yn 2014




**830 O BLANT WEDI SYMUD I GLYBIAU**

**20% O'R RHAIN YN FERCHED**


→

**33 O BLANT WEDI SYMUD WEDI'U CREU**

# cyfranogiad 2014

- 14,772 o fechgyn a merched wedi cymryd rhan
- 52,528 o ran presenoldeb
- 47% o'r rhain yn ferched
- 5.8% o gefndiroedd DLlE
- 5.5% ag anghenion addysgol arbennig





# yr ysgolion cysylltiedig




## mwy na 1/3 o'r holl ysgolion yng Nghymru

**100%** O'R YSGOLION WEDI DWEUD Y BYDDENT YN ARGYMELL Y RHAGLEN I YSGOL ARALL.

**100%** O'R YSGOLION WEDI DWEUD BOD ANSAWDD YR HYFFORDDI'N DDA, DA IAWN NEU RAGOROL.

**97%** O'R YSGOLION WEDI DWEUD BOD ANSAWDD Y PROFIAD YN DDA, DA IAWN NEU RAGOROL.

**81%** O'R YSGOLION WEDI DWEUD Y BYDD GWEITHGAREDDAU CRICED YN CAEL EU CYNNAL NAWR HEB GEFNOGAETH HYFFORDDWR CYMUNEDOL.

**93%** O'R YSGOLION WEDI DWEUD BOD STAFF ADDYSGU'N FWY HYDERUS NAWR I GYFLWYNO GWEITHGAREDDAU CRICED O GANLYNIAD I GEFNOGAETH HYFFORDDWR CYMUNEDOL.





# astudiaethau achos

## LLWYDDIANT MAWR GYDA DISGYBLION

### MYND Â CHRICED YN ÔL I YSGOLION

Mae criced yn profi'n llwyddiant mawr yn Ysgol Gynradd New Inn ger Pontypwl, ble mae wedi cael ei ailgyflwyno ar ôl blynyddoedd lawer o absenoldeb.

Aeth Lee Herring, Hyfforddwr Cymunedol Criced Cymru ar gyfer Torfaen a Gogledd Sir Fynwy, i gyfarfod uwch dîm rheoli'r ysgol i ddechrau, i drafod beth allai Criced Cymru ei gynnig o ran hyfforddiant, cystadlaethau, gweithgareddau trawsgwricwlaidd a chysylltiadau â chlybiau criced lleol.

Roedd yr ysgol yn awyddus i dderbyn a chynhaliodd Lee gyfres o sesiynau blasu, gan arwain clwb ar ôl ysgol yn cael ei redeg gan aelod o staff ac yn cynnwys rhyw 20 o ddisgyblion, a hefyd Alex Herring, yr Hyfforddwr Cymunedol ar gyfer Ardal Gwent.

Hefyd mae disgyblion New Inn yn ymwybodol erbyn hyn o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu eu sgiliau a'u profiad mewn clybiau criced lleol, sef Clwb Criced Panteg a Chlwb Criced Pentwyn, ac o'r sesiynau sydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol.

Dywedodd Dan Frost, athro a chydlynydd AG yn yr ysgol:

*"Roedden ni wrth ein bodd yn gallu cynnal clwb ar ôl ysgol gyda bron i 20 yn bresennol yn rheolaidd ac roedd yn grêt gweld nifer o'r plant yn symud ymlaen i glybiau criced lleol. Roedden nhw'n cael eu blas cyntaf ar griced cystadleuol yno. Roedd yn galonogol gweld nifer o ferched yn cymryd rhan, yn bennaf am fod Alex yno, gan fod hynny'n profi mai nid dim ond gêm i fechgyn yw criced. Nid oedd posib i ni gystadlu yn yr ŵyl i Ysgolion eleni, ond mae yn y dyddiadur ar gyfer 2015!"*






## CANOLFANNAU CRICED YN RHOI HWB I GYFRANOGIAD

GALLUOGI MWY O FERCHED I CHWARAE

Mae Criced Cymru wedi sefydlu canolfan i ferched yn Ne Orllewin Cymru, i alluogi merched o bob gallu i fwynhau a deall y gêm yn eu lle eu hunain - ar wahân i'r bechgyn. Fel rhan o'i rôl fel Hyfforddwr Cymunedol, a gyda help yr awdurdodau lleol, aeth Keri Chahal i 15 ysgol gynradd ledled Abertawe a Sir Gaerfyrddin, gan gyflwyno sesiynau blasu i fechgyn a merched.

Roedd ffocws ar annog merched i fynychu'r sesiynau hyn, yn ogystal â dyddiau gemau yn y ganolfan drwy gydol tymor yr haf a'r gwyliau.

Roedd presenoldeb da yn nosweithiau hyfforddi'r merched yng Nghlwb Criced Llangennech a Chlwb Criced Gorseinon, a daeth nifer o ferched i'r dyddiau gemau hefyd, gan chwarae criced pêl feddal yn fformat Criced Kwik. Gwahoddwyd rhai chwaraewyr i fynd i ddyddiau talent canolfan ddatblygu genedlaethol Criced Cymru.

Cafodd Keri help gan ddwy hyfforddwraig fenywaidd, Izzy Day a Claire Thomas. Mae'r ddwy'n chwarae criced ac roeddent yn fodelau rôl rhagorol i'r merched. Hefyd cafodd y merched wylio Clwb Criced Llangennech - unig dîm yr ardal sydd yn uwch gynghrair y merched - yn ymarfer, gan roi syniad iddynt o sut gallant symud ymlaen a datblygu.

Y cam nesaf yw trefnu sesiynau dan do dros y gaeaf er mwyn i'r merched gael dal ati i wneud cynnydd.





## YSGOL YN FUDDUGOL MEWN ROWND DERFYNOL RANBARTHOL

LLWYDDIANT MEWN CYSTADLAETHAU

Ysgol gynradd yn Wrecsam yw'r gyntaf yng Ngogledd Cymru i ennill rownd derfynol Rhanbarth y Gogledd yn y gystadleuaeth Criced Kwik Genedlaethol sy'n cael ei threfnu gan Fwrdd Criced Cymru a Lloegr. Gorffennodd y tîm cymysg o Ysgol St Peter's yn yr Orsedd Goch, Wrecsam, ar y blaen i ysgolion buddugol o naw sir, gan gynnwys Swydd Efrog, Swydd Gaerhirfryn, Durham a Swydd Caer. Gorffennodd tîm merched St Peter's yn drydydd yn eu cystadleuaeth.

Mae'r ysgol wedi datblygu ei rhaglen o gystadlaethau mewnol ac allanol gydag ysgolion eraill drwy gyfrwng Rhaglen Hyfforddwyr Cymunedol Criced Cymru, gyda chymorth y fenter Chance to Shine.

Cododd yr ysgol arian i brynu rhwyd criced a llwyddodd y dirprwy bennaeth, David Lloyd, i gael offer Criced KWIK drwy gefnogaeth Criced Cymru a'r awdurdod lleol. Gyda help yr Hyfforddwr Cymunedol, Jamie Griffiths, defnyddiodd y plant yr offer i ymarfer cyn ac ar ôl ysgol, ac yn ystod amser egwyl a chinio.

O ganlyniad, mae 43 allan o'r 220 o ddisgyblion yn yr ysgol wedi ymuno â chlwb criced erbyn hyn, ac mae saith wedi cynrychioli Gogledd Ddwyrain Cymru D11 neu D10. Ar ôl cymhwyso yn y twrnamaint yng ngham un, enillodd yr ysgol y cystadlaethau cymysg a merched yn y rowndiau terfynol ardal a rhanbarthol. Roedd hyn yn golygu y byddai'r ysgol yn cynrychioli Gogledd Cymru yn y ddwy gystadleuaeth.

Yn rowndiau terfynol Ardal y Gogledd yn Harrogate, enillodd y tîm cymysg y rownd derfynol a chyrhaeddodd y merched y rownd derfynol, gan orffen yn drydydd yn y gystadleuaeth.






## SEREN MORGANNWG YN MYND YN ÔL I'R YSGOL

### LLEDAENU YSBRYD CRICED

Cafodd plant Ysgol Gynradd Palmerston yn y Barri fore i'w gofio yng nghwmni capten T20 Morgannwg, Jim Allenby, pan ymunodd â nhw ar gyfer gwasanaeth boreol arbennig a sesiwn o griced.

Yng ngwasanaeth boreol 'Ysbryd Criced' yr MCC, a gynhaliwyd gan Griced Cymru, tynnwyd sylw at werthoedd ac ysbryd criced, ac yn enwedig pwysigrwydd cymryd rhan mewn chwaraeon o ddifrif ond yn deg, a phwysigrwydd parchu aelodau eraill eich tîm, y gwrthwynebwyr a dyfarnwyr y gêm.

Roedd y digwyddiad hwn yn rhan o bartneriaeth rhwng Clwb Criced Marylebone (MCC) a Chance to Shine, yr ymgyrch elusennol i gadw criced yn fyw mewn ysgolion, sy'n cael ei chyflwyno yng Nghymru drwy Griced Cymru.

Wedyn cafodd y plant roi prawf ar eu sgiliau criced mewn sesiwn awyr agored, gyda Jim yn cymryd rhan.

*"Roedd y plant yn wych ac rydw i'n meddwl eu bod nhw wir wedi mwynhau," dywedodd Jim. "Erbyn diwedd y sesiwn, roedden nhw wedi mynd i ysbryd y peth, yn ysgwyd dwylo ac mae'n grêt gweld hynny. Mae'n hynod bwysig bod ysgolion y wladwriaeth yn gallu cynnig criced. Os gallwn ni sicrhau bod criced ar gael i bawb, fe fydd llawer mwy o gricedwyr yn chwarae, ac mae hynny'n golygu llawer mwy o bobl yn chwarae criced i Loegr ryw ddiwrnod, o gefndiroedd amrywiol. Mae wedi bod yn grêt cael dod i'r ysgol heddiw a gweld pawb yn mwynhau ac yn hoffi criced."*

Dywedodd Chloe, 10 oed, *"Roedd yn hwyl. Fe wnaethon ni ddysgu sut i chwarae criced. Doeddwn i ddim yn gwybod sut i chwarae o'r blaen ond rydw i nawr."*

## CRICED YN HELPU THOMAS I DDISGLEIRIO

### EFFAITH GADARNHAOL AR FYWYDAU POBL

Mae criced yn cael effaith fawr ar fywyd Thomas Corbett, disgybl 15 oed yn Ysgol St Christopher's yn Wrecsam, sydd bellach wedi mynychu dau gwrs hyfforddwr cynorthwyol gyda Bwrdd Criced Cymru a Lloegr ac wedi cynrychioli Cymru yn y tîm criced anabledd cenedlaethol.

Mae Thomas wedi mwynhau criced ers blynyddoedd a chymerodd ran yn y rhaglen Chance to Shine, a gyflwynwyd gan Griced Cymru. Mae wedi dod yn arweinydd chwaraeon gyda'r rhaglen Pobl Ifanc Egnïol.

Ef yw'r disgybl cyntaf o'i ysgol i ennill dau gymhwyster hyfforddi criced cenedlaethol. Mae wedi mynychu cwrs Gweithredwyr Criced a chwrs Gweithiwr Cefnogi Hyfforddwr gan Fwrdd Criced Cymru a Lloegr. Hefyd mae wedi cynrychioli Cymru yn y tîm criced anabledd cenedlaethol, gan chwarae yn erbyn Lloegr yn Old Trafford.

Ar ôl datblygu profiad a magu hyder drwy griced, mae Thomas eisiau dilyn cwrs Lefel 2 uwch yn awr, mynychu gweithdai Criced Cymru ac ymuno â Hyfforddwr Cymunedol Criced Cymru, Jamie Griffiths, mewn sesiynau i ennill mwy o brofiad.

*"Mae Thomas yn esiampl wych o sut gall criced gael effaith gadarnhaol iawn ar fywyd rhywun," dywedodd Jamie Griffiths. "Mae criced wedi helpu i wella ei hyder ac erbyn hyn mae'n credu ynddo'i hun ac yn barod i symud ymlaen ymhellach fyth."*



## CRICED A PHÊL DROED YN DOD AT EI GILYDD

### CYDWEITHIO Â CHWARAEON ERAILL

Mae Clwb Criced Porthaethwy wedi datblygu partneriaeth lwyddiannus gyda Chlwb Pêl Droed Dinas Bangor, i gynnal rhaglen lwyddiannus o wersylloedd haf, sydd wedi cyflwyno mwy o blant i griced ac wedi ehangu profiadau hyfforddwyr lleol.

Roedd hyfforddwr cymunedol Criced Cymru, Nicola Williams, yn gweld bod y clwb pêl droed yn gwneud gwaith da yn y gymuned ac aeth i'w holi am sut gallai criced a phêl droed gydweithio, gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Chance to Shine.

Cytunwyd y byddai Criced Cymru yn trefnu gwersylloedd haf mewn clwb lleol, a daeth Clwb Criced Porthaethwy i helpu i gynnal y gwersyll haf cyntaf am ddeuddydd.

Darparodd y ddau glwb hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a chynorthwywyr i redeg y gwersylloedd a chafodd yr arian a godwyd ei ailfuddsoddi mewn rhaglenni cymunedol i hyfforddi a gwobrwyo gwirfoddolwyr. Roedd yn llwyddiant ysgubol ac roedd y plant yn gofyn am drefnu gwersyll arall ar frys ddiwedd y gwyliau!

Gyda 30 o blant 6 i 12 oed yn mynychu'r gwersylloedd haf, mae'r clybiau'n awyddus i adeiladu ar y llwyddiant yma ac maent wedi trefnu gwersyll arall ar gyfer gwyliau'r Pasg.







# geirda gan bartneriaid

*Doeddwn i ddim yn gwybod dim byd am griced cyn i'r Hyfforddwr Cymunedol ddod i'r ysgol. Dydi hon ddim yn ardal griced draddodiadol. Nawr mae gen i hyder i gyflwyno gweithgareddau criced ac rydw i wrth fy modd yn rhannu fy hoffter newydd o griced gyda'r disgyblion.*
ATHRO, CASNEWYDD

*Roeddwn i eisiau dweud cymaint wnes i fwynhau'r cwrs criced i athrawon ddoe yn y Fenni. Roedd yn hwyl ac mae wedi rhoi hyder i mi gyflwyno criced mewn gwers AG - gyda mwy o awdurdod gobeithio! "Ydw, fechgyn, rydw i YN gwybod sut mae bowlio!"*
ATHRO, TREFYNWY

*Gwych, rhagorol!!! Mae gennym ni gysylltiadau gwych ag o leiaf 5 ysgol leol nawr AC rydyn ni wedi cynyddu nifer ein hyfforddwyr clwb er mwyn dal ati. Mae nifer y timau plant wedi cynyddu o un i dri, felly cynllun grêt i bawb.*
PRIF HYFFORDDWR CLWB, SIR DDINBYCH

*Rydyn ni'n eithriadol hapus gyda'r help gawsom ni gan hyfforddwyr cymunedol Criced Cymru. Rydyn ni wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n cymryd rhan y tymor yma. Ar y cyfan, mae'r lefelau cymryd rhan wedi cynyddu ac rydyn ni wedi dod o hyd i dalentau naturiol. Fe fyddwn ni'n gweithio'n galed â nhw dros y gaeaf nesaf. Rydyn ni eisiau diolch i bawb cysylltiedig yn 'Criced Cymru' am y fenter griced yma ac rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda chi eto yn y dyfodol ar brosiectau eraill.*
CYDLYNYDD IAU, CAERDYDD







CRICKET WALES
CRICED CYMRU

**CRICED CYMRU**
Stadiwm SWALEC
Caerdydd, CF11 9XR

Ffôn // 02920 419 341

Gwefan // www.cricketwales.org.uk
Twitter // @CricketWales

DYLUNIWYD GAN WWW.LETSTALK-DESIGN.COM